

Cyngor Cymuned Llanelian (296)

Cofnodion cyfarfod Mawrth 13, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, Helen Hughes, John Griffiths, Hefina Williams, Glenys Jones, Ian Evans, Thomas Jones, Elfyn Hughes, David Gerrard, Gordon Hayes, Carol Whitaker

Ymddiheuriadau: Cyng Richard Griffiths, Cyng Richard Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc), Dylan Owen (Hwylusydd Tai Gwledig), Catrin Roberts (Rheolwr Tai Fforddiadwy Grwp Cynefin), Gwyndaf Williams (Rheolwr Datblygu Grwp Cynefin)

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Ian Evans - Cais cynllunio Y Bedol

Helen Hughes, Dafydd Griffiths, Thomas Jones – Ffioedd Claddu

3 Cyflwyniad Arolwg Angen Tai a Grwp Cynefin

Croesawyd Dylan Owen, Catrin Roberts a Gwyndaf Williams i'r cyfarfod a diolch iddynt am eu hamser. Dosbarthwyd gopiau o'r adroddaid yn amlinellu canlyniadau'r arolwg anghenion tai a gynhaliwyd yn ddiweddar i bawb oedd yn bresennol.

Cafwyd wybod bod 600 o lythyrau wedi eu hanfon allan i gyfeiriadau ardal Penysarn/Llanelian, a bod 32 wedi cwblhau'r holiadur (5%); o'r rheini, roedd 13 mewn angen. Nodwyd bod 20 o bobl ar gofrestr Tai Teg, gydag un ohonynt wedi nodi ardal Llanelian fel y dewis cyntaf. Ar gofrestr y Cyngor Sir, mae 11 ar y rhestr aros ar gyfer yr ardal. Nid oes cadarnhad os mai henoed yn disgwyl byngalo oedd y bobl yma. O'r holiaduron a gwblhawyd fel rhan o'r arolwg, dim ond dau sydd ar restr aros yn barod.

Canlyniad yr arolwg oedd bod angen 13 ty ym Mhenysarn. Bydd yr adroddiad yma, sydd yn gyfredol am y pum mlynedd nesaf, rwan i'w rannu gyda'r Cyngor Sir. Diolchwyd i Dylan Owen am gyflwyno'r adroddiad. Cytuno cynnwys yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau ddarllen y ddogfen.

Cafwyd grynodedb gan Grwp Cynefin am y ffordd y maent yn rheoli ac yn gosod tai. Nodwyd bod - cyfle i bobl brynnu rhan (70-80%) o'r ty drwy gynllun ecwiti, bod tai eraill yn cael eu gosod drwy gynllun rent canolraddol (rhestr tai teg) ac eraill drwy gynllun rhent gymdeithasol (drwy'r Cyngor Sir). Cadarnhawyd bod y cynllun ecwiti a chynllun rhent canolraddol yn gofyn am gysylltiad lleol (hy gwaith, teulu, byw yn yr ardal yn barod); roedd y cynllun rhent cymdeithasol yn dilyn canllawiau CSYM. Nid oes cynlluniau pendant ar gyfer datblygiad Dublin ar hyn o bryd ac mae trafodaethau yn parhau a swyddogion CSYM i bennu yn union sut fydd y tai yn cael eu gosod/gwerthu.

Diolchwyd i'r tri am ymuno a'r cyfarfod ac am ymateb i gwestiynnau'r aelodau. Bu'r cynrychiolwyr adael y cyfarfod am 19.50.

Teimlai'r aelodau yn ffodus yn yr ystyr bod y datblygiad am fod yn fforddiadwy i gyd, ac nid yn dai gwyliau. Roedd pryderon fodd bynnag am broblemau posib petai'r datblygiad i gyd yn dai cymdeithasol, a teimlai'r aelodau byddai cymysgiad o denantiaeth/gwerthu o fudd i'r pentref. Cytuno ysgrifennu at yr adran dai CSYM i nodi hyn a gofyn beth yw eu bwriad.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Thomas Jones, eilio Hefina Williams.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Lon yr Ysgol

Cafwyd ebost gan CSYM yn cadarnhau petai'r awdurdod yn penderfynu moderneiddio ysgolion y dalgylch byddent yn dilyn yr un drefn ac ardaloedd eraill ac yn hysbysu'r Cyngor Cymuned cyn gyted a phosib. Bydd adnabod yr ardaloedd sy'n cael sylw o dan cynllun moderneiddio 2019-2024 i'w gytuno drwy'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y misoedd nesaf.

Nid oedd ymateb gan Mr J Owen y tirfeddianwr ynglŷn a'r posibilrwydd o werthu darn o dir i ddatblygu maes parcio ger yr ysgol.

5.2 Giat y Fynwent

Cafwyd ddiweddariad am y prosiect. Cafwyd wybod bod disgwyl i'r cais am 'listed building consent' gael ei gyflwyno cyn diwedd yr wythnos. Bydd gan CSYM wyth wythnos i ddod i benderfyniad, felly mae disgwyl clywed ganddynt erbyn Mai 11.

5.3 Materion Priffyrdd

Daw ebost gan CSYM yn cadarnhau eu bod yn fodlon a ffin datblygiad Dublin ger y ffordd osgoi.

Cafwyd gadarnhad gan CSYM bod gwaith jetio ac ymchwil CCTV i'w wneud yn y dyfodol agos ar y system draen ffordd lawr Stryd y Capel.

Nid oedd ddiweddariad am fin baw cwn nac arwyddion ffyrdd. Gofynnwyd i'r clerwr gysylltu eto.

5.4 Cofrestr Asedau – Yswiriant

Cadarnhaodd y clerwr ei bod wedi cysylltu a'r cwmni yswiriant a'i bod yn disgwyl cadarnhad o gotau ychwanegol cyn gynted a phosib.

6 Caeau Chwarae

Daw adroddiad diweddaraf Medwyn Owen ynglŷn a diogelwch y cae chwarae. Cytuno gofyn i AMP construction drwsio'r wal ger Maes Llwyfo gan eu bod a deunyddiau ar y safle yn barod wrth iddynt weithio ar ddatblygiad Dublin; a chysylltu ag Richard Edwards i dwtio'r llwybr sydd wedi gor dyfu. Nododd Gordon Hayes bod ganddo luniau o'r offer coed sydd angen sylw yn Lon Tyddyn Waen. Y clerwr i gysylltu a Playquest am bris i newid yr offer sydd wedi pydru am rai plastig. Cytuno gofyn i Medwyn Owen am bris am y gwaith twtio a phaentio.

7 Llithrfa

Bydd y goriadau yn barod i'w dosbarthu erbyn Pasg. Nodwyd bod unigolyn wedi codi'r pwynt bod y gost yn ddrud iawn i rywun oedd a cwch bach ac injan bach. Awgrymwyd bod y bartneriaeth yn edrych ar hyn ac yn asesu'e sefyllfa ar ddiwedd y tymor.

8 Cynllunio

8.1 Ceisiadau – roedd un cais i'w ystyried:

20C349 Bryn, Penysarn – cais i ddymchwel yr annedd bresennol a chodi dau annedd yn ei le. Mae'r arolwg angen tai nad oes angen am dai newydd yn y gymuned (yn ychwangeol i'r rhain sydd eisioes wedi cael caniatad). Mae pryderon am gapasiti'r system garffosiaeth yn y gymuned. Mae pryderon mawr am ddiogelwch ffordd yn ardal y cais yma, ar ran gul o'r lon ger yr ysgol gynradd, byddai mynediad I fewn ac allan o'r datblygiad yn beryglus I drigolion y tai yn ogystal a defnyddwyr eraill y lon. Cytuno gwrthwynebu'r cais.

8.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

Dim gwybodaeth.

8.3 Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno – Y Bedol

Roedd gwybodaeth am y dogfennau cynllunio wedi eu hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Darllennwyd lythyr gan Gwyn Roberts yn nodi ei bryderon fel rhywuno edd yn byw gerllaw'r safle. Trafodwyd y cais mewn peth manylder a chytuno bod yr arolwg tai diweddar yn nodi nad oedd gwir angen am fwy o dai yn y pentref – mae 9 annedd yn cael eu adeiladu ar safle Dublin ar hyn o bryd. Pwy fyddai angen yr 14 ty ar safle'r Bedol? Nodwyd na fyddai Cadnant yn ymwybodol o ganlyniadau'r Arwlog Anghenion Tai eto. Cytuno cysylltu a'r datblygwyr yn holi:

- Beth yw eu bwriad ar gyfer y tai newydd – a fyddent ar gael ar y farchnad agored ynteu byddent yn cael eu gwerthu i gymdeithas tai megis Grwp Cynefin?
- Pa drefniadau sydd i wella'r system garffosiaeth ble fydd carffosiaeth y tai newydd yma yn bwydo i fewn? Mae pryderon mawr gan y Cyngor am gapasiti'r system bresennol ac mae eisioes problemau yn y pentref.
- Mae'r aelodau yn bryderus iawn bod y datblygiad yn bwriadu defnyddio'r un mynediad i'r lon ag Stad Tyn Rhos. Mae nifer fawr o gerbydau yn defnyddio'r mynediad yma yn barod

ar gyfer y Stad a hefyd Maes Carafannau a Gwersylla tyn Rhos. Roedd dau fynediad i faes parcio'r Bedol am reswm.

9 **Materion Ariannol**

9.1 **Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£100.00 Cylch Meithrin Penysarn
£183.00 Aelodaeth Un Llais Cymru
£323.43 HMRC / PAYE
£270.00 CSYM Costau Etholiad
£156.00 CSYM Cyfraniad tuag at Wobr Lan y Mor
£742.76 CSYM Costau Cynllun Llithrfa 2017
£272.23 Cyflog Clerc
£87.00 M Owen Archwilio Caeau Chwarae

9.2 **Ceisiadau am Arian**

Ni dderbyniwyd ceisiadau am arian.

9.3 **Ffioedd Claddu**

9.3.1 Ffioedd Claddu Plant – Cytuno na fyddai'r Cyngor yn codi ffioedd claddu ar deuluoedd petai'r sefyllfa yn codi ond y bydd y Cyngor yn hawlio'r arian yn ol drwy'r Cyngor Sir.

9.3.2 Ffioedd Claddu Cyffredinol – adolygwyd y ffioedd yn ol yn 2015. Roedd ffioedd claddu mynwentydd eraill wedi eu dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytuno byddai ffioedd gwahanol yn cael eu codi ar reini sydd ddim yn byw yn ardal y Cyngor fel sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill. Cynnig Elfyn Hughes, eilio Glenys Jones. Cytuno mewn egwyddor bydd y Cyngor yn mabwysiadu ffioedd ar yr un lefel a Chyngor Llanbadrig. Y clerch i baratoi dogfen i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

9.4 **Adroddiad Blynyddol PACGA**

Cadarnhawyd bod gwybodaeth ynglŷn a'r adroddiad wedi ei anfon allan i'r aelodau cyn y cyfarfod. Mae'n debyg bod y panel yn ceisio sicrhau bod trwsdoriad o'r gymuned yn cael eu cynrychioli ar y cyngor ac nad oes unrhyw rhwystrau ariannol megis gofal plant. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnig Cronfa Cadeirydd yn y dyfodol wrth gydnabod y faicg a'r gwaith ychwanegol a ddisgwylir, Nid yw'r cyngor wedi cynnig y fath daliad hyd yma.

Cydnabyddwyd y ddogfen gan gadarnhau y byddai i fynu i aelodau unigol wneud cais i hawlio costau petaent yn dymuno gwneud hynnu.

9.5 **Siapio Llefydd**

Cafwyd grynodedb byr gan Dafydd Griffiths o'r gweithdy a gynhaliwyd i drafod egwyddor Siapio Cymunedau. Mae'n debyg bod y Cynor Sir yn edrych i fwydo mwy o gyfrifoldebau a gofynnion ar y cynghorau tref a cymuned.

10 **Cronfa Ty Moel Isaf**

Daw llythyr yn cadarnhau bod fflat Mrs Morris wedi ei werthu erbyn hyn. Trafodwyd y posibilrwydd o ad-drefnu cynghorau a'r pwysigrwydd o sicrhau bod yr arian yn cael ei ddiogelu a'i wario yn yr ardal leol fel oedd dymuniad Mrs Morris. Nodwyd bod angen cydnabod cyfraniad Mrs Morris i wahanol brosiectau a fydd yn cael ei ariannu drwy'r gronfa yma.

Cytuno byddai'r aelodau yn dod a syniadau am brosiectau posib i'r cyfarfod nesaf i'w trafod mewn manylder.

11 **Iechyd a Diogelwch** - dim materion ychwanegol i'w ystyried.

12 **Wylfa Newydd**

Cafwyd ddiweddariad gan Dafydd Griffiths o'r hyn sy'n cael ei drafod gan Bartneriaeth Cynghorau Gogledd Mon ar hyn o bryd. Mae arbennigwyr wedi eu penodi erbyn hyn ac mae disgwyl cwrdd a nhw i drafod gwahanol agweddau mewn manylder. Mae disgwyl i gais DCO Wylfa Newydd – 'Y Cais Mawr' – gael ei gyflwyno i'r Arologaeth Gynllunio diwedd y mis yma. Bydd wedyn 28 diwrnod

iddynt dderbyn y cais yn swyddogol cyn i'r broses archwilio ddechrau. Mae disgwyl i'r broses hwnw gymryd 18 mis.

13 **Gohebiaeth**

Daw arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cytuno byddai Dafydd Griffiths, Hefina Williams a'r Clerc yn trafod ac yn ymateb ar ran y Cyngor.

14 **Unrhyw Fater Arall**

14.1 **Cyflwr y Lon** – nodwyd pryderon am gyflwr y lon o Benysarn tuag at Pengorffwysfa yn enwedig ger Tyddyn Engan a Threm Arfor. Mae tyllau mawr yno erbyn hyn. Nodwyd bod y lon yma hefyd yn ran o lwybr beicio Sustrans ac roedd pryderon am ddiogelwch. Y Clerc i gysylltu a CSYM.

14.2 **'Man Hole' ger y Bedol** – Nododd Gordon Hayes nad oedd y clawr wedi ei drwsio hyd yma a bod dwr yn rhedeg drwy'r cafn. Y clerch i gysylltu a CSYM eto.

14.3 **Traen Stryd y Capel** – nodwyd pryderon bod y lon yn dal i orlifo. Nodwyd bod y tai pob och i'r ffordd yn is na'r lon a bod peryg iddynt lifogi heb fod angen. Y clerch i gysylltu a CSYM.

14.4 **Baw Ci** – nodwyd bod peth baw ci ar Allt Nebo o'r sgwar tuag at y gyffordd a Lon yr Ysgol. Y clerch i gysylltu a CSYM i'w lanhau gan fod nifer o blant yn defnyddio'r palmant i gerdded i'r ysgol.

14.5 **Giat Mynwent Bosra** – nodwyd bod cyflwr y giat yn dirywio a'i fod erbyn hyn yn beryglus. Y clerch i gysylltu a'r Henaduriaeth i ofyn am ddiweddariad.

14.5 **Arwydd wiwerod** – nodwyd bod yr arwydd wedi ei symud i'r lleoliad iawn erbyn hyn ond ei fod yn gwynebu'r ffordd anghywir. Y clerch i wneud ymholiadau.

15 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Ebrill 10 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.35.

Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd

CET03/2018